Adolygiad Mawrth 2020

**PRIFYSGOL BANGOR**
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau newydd, adolygu polisïau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi gender** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Yr iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Math o gontract** |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Enw neu deitl y polisi:** -

COP 18: Cod Ymarfer i'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed

| **Gwybodaeth am y polisi:** | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y polisi? | Cynyddu'r tebygolrwydd y bydd myfyrwyr israddedig ac ôl-radd newydd yn integreiddio'n llwyddiannus i wead cymdeithasol ac academaidd y brifysgol, a rhoi cyfle i bob myfyriwr ar lefel 6 ac uwch gymryd rhan mewn profiad gwaith gwirfoddol. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Cydlynydd Canolog Arweinwyr Cyfoed (Pennaeth Datblygu Sgiliau ar hyn o bryd). |
| Sut y mae'r polisi'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Blaenoriaeth strategol 1: Nod 2<br>Rhoi profiad ac amgylchedd dysgu rhagorol, sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl i'n myfyrwyr lwyddo. |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | • Holl fyfyrwyr<br>• Ysgolion academaidd (a gynrychiolir gan Gydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ym mhob ysgol)<br>• Gwasanaethau canolog |
| A fydd y polisi yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol? | Bydd |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Holl fyfyrwyr |

| **A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)** | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? | Nod y polisi yw sicrhau bod cefnogaeth cyfoedion ar gael i bob myfyriwr newydd. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Mae hyfforddi Arweinwyr Cyfoed yn canolbwyntio ar ymarfer cynhwysol. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Mae hyfforddi Arweinwyr Cyfoed yn cynnwys tasgau ac arweiniad ar ddiogelu, aflonyddu, yfed yn ddiogel, ac mae'n annog empathi ac ymarfer cynhwysol. |

Adolygiad Mawrth 2020

| **Monitro** | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael yn gefn i'r polisi? | Mae ceisiadau i'r cynllun yn cael eu rheoli trwy ddangosfwrdd Arweinwyr Cyfoed. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru fel arweinwyr cyfoed a'r rhai a gefnogir trwy'r cynllun wedi eu cofnodi. Gwerthusir hyfforddiant arweinwyr cyfoed trwy arolwg adborth. Cesglir data meintiol ac ansoddol ar brofiad myfyrwyr newydd trwy'r arolwg blynyddol Croeso. |

| **Ymgynghori** | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi? | Mae adborth gan fyfyrwyr a gefnogir trwy'r cynllun a'r myfyrwyr sy'n gwirfoddoli fel arweinwyr cyfoed yn arwain at wneud newidiadau i'r polisi fel y mae adborth gan gydlynwyr Arweinwyr Cyfoed yn yr ysgolion. Mae'r Cydlynydd Canolog Arweinwyr Cyfoed yn adrodd i'r Grŵp Lles Myfyrwyr. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chydlynwyr ysgolion. Dadansoddwyd adborth ar hyfforddiant, ac arolwg Croeso. Mae'r Cydlynydd Canolog Arweinwyr Cyfoed wedi cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i staff gwasanaethau canolog yn y Grŵp Lles Myfyrwyr. |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Cynhaliwyd adolygiad llawn o hyfforddiant Arweinwyr Cyfoed, gan roi mwy o bwyslais ar gynhwysiant, diogelu ac atgyfeirio. Datblygwyd dangosfwrdd ar-lein er mwyn gwella prosesau gweinyddol yn ganolog ac yn yr ysgolion academaidd. |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Mae Arweinwyr Cyfoed yn cael eu recriwtio bob blwyddyn. Caiff darpar fyfyrwyr wybod am y cynllun trwy brosbectws y brifysgol a dyddiadur yr Wythnos Groeso. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi? | Cydlynydd Canolog Arweinwyr Cyfoed (Pennaeth Datblygu Sgiliau ar hyn o bryd). |

Adolygiad Mawrth 2020

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Adrodd i'r Grŵp Lles Myfyrwyr; cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi? | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Grŵp Lles Myfyrwyr. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion? | Bob blwyddyn. |

| **Goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn? | Mae hyfforddiant yn orfodol i bob Arweinydd Cyfoed newydd. Mae'r staff sy'n newydd i swyddogaeth y Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed yn yr ysgolion academaidd yn cael eu cynefino i'r swydd gan y Cydlynydd Canolog Arweinwyr Cyfoed. |
| Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn? | Mae gweithredu fel Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed mewn ysgolion academaidd yn swyddogaeth ran-amser Bydd angen ystyried hyn wrth wneud addasiadau i lwyth gwaith addysgu/ymchwil/gweinyddol staff. |

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| 3 blynedd | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
| Julian Brasington, Pennaeth Datblygu Sgiliau | 27 Mawrth 2020 |